



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod a Babanod Newydd-anedig Cymru (NIPEC)



Mae'r llawlyfr hwn ar gyfer yr holl ymarferwyr NIPEC yng Nghymru, gan gynnwys meddygon, cymdeithion meddygol, bydwagedd a nyrsys

Cydnabyddiaethau

Mae'r ddogfen hon wedi'i hatgynhyrchu a'i haddasu i'w defnyddio yng Nghymru gyda chaniatâd caredig Rhaglen Sgrinio NIPE GIG Lloegr. [Llawlyfr rhaglen sgrinio archwiliadau corfforol ar gyfer babanod a babanod newydd-anedig \(NIPE\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Nodwch fod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn defnyddio'r term archwiliadau corfforol systematig ar gyfer y newydd-anedig neu SPENI. Mae'r term yn gyfystyr â NIPEC.

Cynnwys

Cydnabyddiaethau	1
Nod y llawlyfr Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod a Babanod Newydd-anedig Cymru (NIPEC)	2
1. Archwiliad NIPEC	2
2. Archwiliadau NIPEC.	5
3. Cadw cofnodion ac archwilio	8
4. Babanod sy'n symud i'r ardal neu'n symud ymaith	9
5. Llwybrau cyfathrebu yn dilyn profedigaethau	9
6. Babanod sydd wedi methu archwiliad.....	10
7. Archwiliad o'r llygaid.....	11
8. Archwiliad o'r galon	11
9. Archwiliad o'r cluniau	11
10. Archwiliad o'r ceilliau	11
11. Safonau archwiliadau sgrinio	11
12. Hyfforddiant a chynnal cymhwysedd	11
Cyfeiriadau / dogfennau ffynhonnell	13

Nod y llawlyfr Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod a Babanod Newydd-anedig Cymru (NIPEC)

Mae'r llawlyfr hwn yn hysbysu ac yn hybu'r arferion clinigol gorau a dylid ei ddefnyddio ar y cyd â Chanllawiau NIPEC (Llywodraeth Cymru 2023) (aagic.gig.cymru/ein-gwaith/archwiliad-corfforol-y-newydd-anedig-ar-babanod-cymru-nipec).

1. Archwiliad NIPEC

Prif nodau'r Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod a Babanod Newydd-anedig GIG Cymru (NIPEC) yw:

- ✦ Dynodi a chyfeirio pob plentyn sydd wedi'i eni ag annormaleddau cynhenid y llygaid, y galon, y cluniau a'r ceilliau (gwrywod), ble bo modd eu canfod, o fewn 72 awr i'r enedigaeth.
- ✦ At hynny, dynodi'r annormaleddau a fydd efallai'n ganfyddadwy ar gyrraedd chwe wythnos oed, yn ystod yr archwiliad corfforol ar gyfer babanod.
- ✦ Lleihau afiachedd a marwoldeb.

Mae'r oeddrannau hyn yn cael eu hargymhell yn seiliedig ar yr arferion gorau a thystiolaeth gyfredol. Dylent hwyluso atgyfeiriad prydlon ar gyfer asesiad clinigol cynnar.

Mae'r holl gyfeiriadau at archwiliadau NIPEC yn y ddogfen hon yn ymwneud â'r pedair elfen sgrinio uchod. Mae cyfeiriadau at rieni hefyd yn ymwneud â gofalwyr, os yn briodol.

1.1 Archwiliadau babanod NIPEC

Argymhellir cynnal yr archwiliadau babanod ar gyrraedd chwe wythnos oed ar gyfer pob un o'r pedwar amod (gan y gall rhai cyflyrau ddatblygu neu ddod i'r amlwg ar ôl y sgriniad newydd-enedigol). Gwneir hyn fel arfer mewn lleoliad gofal sylfaenol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau arfer da ac amserlenni atgyfeirio argymelledig ar gyfer yr archwiliad babanod.

Argymhellir cofnodi'r holl ganlyniadau archwiliad ar y system TG Meddygon Teulu, yn y ffurflen casglu data genedlaethol ar gyfer Rhaglen Plant Iach Cymru ac yng nghofnod iechyd personol y plentyn (PCHR), y 'llyfr coch'.

1.2 Llwybrau NIPEC

Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at (aagic.gig.cymru/ein-gwaith/archwiliad-corfforol-y-newydd-anedig-ar-babanod-cymru-nipec)

2. Gwybodaeth i rieni

Dylai'r rhiant/rhieni fod wedi derbyn gwybodaeth yn y cyfnod cyn geni. Dylid egluro manteision yr archwiliad a'r driniaeth yn glir i'r rhieni gyda chyfle i ofyn cwestiynau. Dylai'r ymarferydd NIPEC gofnodi yn y cofnod proffesiynol bod yr archwiliad corfforol wedi'i drafod, bod caniatâd llafar wedi'i geisio a bod gan rieni fynediad at wybodaeth. Fodd bynnag, cyn cynnal yr arholiad, dylid esbonio'r pwrpas a'r weithdrefn a ddilynir yn llawn i'r rhieni a chael caniatâd llafar.

Gellir dod o hyd i wybodaeth i rieni yma:

[Pob Plentyn – Eich Beichiogrwydd a'ch Esgoriad \(pagesuite-professional.co.uk\)](http://pagesuite-professional.co.uk)

[GIG 111 Cymru - Canllaw Beichiogrwydd](#)

When individuals access and receive health services it is usually when they are at their most vulnerable. Being able to communicate in their own language at this time is essential. Mae cyfathrebu â'r rhiant/rhieni'n hollbwysig a rhaid defnyddio dehonglydd annibynnol os oes angen, er enghraifft ble bo achos o golled / amhariad clyw neu rwystr iaith.

Disgwyliwn i wasanaethau Cymraeg mewn perthynas ag arholiadau Babanod gael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdano. Mae derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg yn rhan hanfodol o ofal o ansawdd da sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

'Mwy na geiriau' yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf. Yn greiddiol iddo mae egwyddor 'Y Cynnig Rhagweithiol'. Mae'n gosod cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn hytrach nag ar y claf i gynnig gwasanaethau yn Y Gymraeg, heb i'r defnyddiwr gwasanaeth i orfod gofyn amdanynt.

[Mwy na geiriau: Cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal Cymdeithasol](#)

Dylid cynnal yr archwiliad yng ngŵydd y rhiant/rhieni lle bo hynny'n bosibl; mewn amgylchedd cynnes, golau, diogel a phriodol; noder fod angen arwynebedd cadarn ar gyfer archwiliad y cluniau.

Dylid darparu preifatrwydd yn arbennig wrth drafod materion iechyd teulu o natur sensitif.

Dylai'r archwilydd ganiatáu digon o amser i gynnal archwiliad heb ei ruthro, sy'n cynnwys trafod canfyddiadau gyda'r rhieni, atgyfeirio os oes angen a chwblhau'r dogfennau perthnasol.

Dylid dogfennu'r archwiliad NIPEC yng nghofnod y plentyn.

2.1 Gwrthod archwiliad NIPEC

Pan gaiff archwiliad NIPEC ei wrthod:

-  Dylid rhoi'r wybodaeth lawn i rieni am yr archwiliadau babanod a babanod newydd-anedig a'r rhesymau dros eu cynnig a'u cynnal.

Mae gan rieni yr hawl i wrthod archwiliadau babanod neu fabanod newydd-anedig NIPEC yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

Os gwrthodant yr archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC, boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol, dylid nodi hyn yng nghofnod y plentyn a rhoi gwybod i'r meddyg teulu a'r ymwelydd iechyd yn ogystal â'i gofnodi yn y PCHR. Dylid atgoffa'r rhiant/rhieni y bydd eu babi'n parhau i fod yn gymwys i gael archwiliad babanod NIPEC hyd at chwe wythnos oed ac yn cael cynnig archwiliad babanod NIPEC pan yn chwe wythnos oed. Dylai'r gwasanaeth rhyddhau roi manylion cyswllt i'r rhieni rhag ofn iddynt newid eu meddyliau.

Os gwrthodant yr archwiliad babanod NIPEC, boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol, dylid cofnodi'r rheswm yn y system TG Meddyg Teulu ac yn y PCHR. Gellir cynnal yr archwiliad yn ddiweddarach. Gweler adran saith, Babanod Heb eu archwilio, isod i gael gwybodaeth glinigol ynglŷn â sgrinio plant hŷn.

3. Archwiliadau NIPEC.

3.1 Archwiliadau babanod newydd-anedig NIPEC.

Dylai'r archwiliad hwn gael ei gynnal yn ddelfrydol o fewn 72 awr i'r enedigaeth. Yn achos babanod sy'n cael eu geni yn yr ysbyty, argymhellir cynnal yr archwiliad cyn eu trosglwyddo adref. Rhydd hyn y cyfle gorau i gynnal yr archwiliad o fewn 72 awr wedi'r enedigaeth.

Rhaid cael llwybr dilynol yn lleol i sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei gynnal, yn ddelfrydol o fewn 72 awr wedi'r enedigaeth neu cyn gynted ag y bo modd wedi hyn.

Dylai bod trefniadau lleol ar waith i fodloni amserlenni cenedlaethol pan fo babanod yn cael eu:

- ❏ geni adref
- ❏ trosglwyddo adref cyn i'r archwiliad newydd-enedigol NIPEC gael ei gynnal

Gallai hyn fod drwy fynychu clinig NIPEC dynodedig neu bennu trefniadau i'r archwiliad gael ei gynnal gartref neu mewn lleoliad gofal sylfaenol. Cyfrifoldeb y darparwr gofal yw sicrhau bod archwiliad newydd-enedigol NIPEC yn cael ei gynnal.

Dylai trefniadau lleol fod mewn grym hefyd pan fo babanod yn cael eu trosglwyddo o'r naill ddarparwr aciwt i'r llall cyn i'r archwiliad newydd-enedigol NIPEC gael ei gynnal neu pan fo angen ôl-archwiliad yn sgil canlyniadau lle amheuir annormaledd.

Babanod mewn uned babanod newydd-anedig

Os yw babi'n cael gofal mewn uned babanod newydd-anedig, nid yw hyn yn rheswm awtomatig dros ohirio'r broses archwilio. Dylid archwilio babanod newydd-anedig NIPEC cyn gynted ag y bo'r babi'n ddigon iach neu wedi cyrraedd 34 wythnos a 0 diwrnod (34+0 wythnos) oed cywiredig (gweler isod). Dylid gwneud atgyfeiriadau'n unol â chanllawiau NIPEC pan amheuir annormaledd. Ni ddylid addasu amserlenni atgyfeirio ar sail oedran ar gyfer babanod wedi'u geni cyn amser.

'Rhy ifanc' ar gyfer archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC

Os caiff babi ei eni cyn 34+0 wythnos o feichiogrwydd, gellir gohirio'r broses archwilio hyd at 34+0 wythnos oed cywiredig. Mae'r babi'n parhau i fod yn gymwys i gael archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC a dylid cynnal yr archwiliad cyn gynted ag y tybir bod y baban yn ddigon hen ac iach. Mae'r penderfyniad i archwilio babanod cyn eu bod yn 34+0 wythnos oed cywiredig yn nwylo clinigwyr lleol.

'Rhy wael' ar gyfer archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC

Caiff archwiliad ei ohirio efallai os yw'r babi'n rhy wael i gael ei archwilio.

Mae'r rhesymau clinigol posibl am y gohiriad hwn yn cynnwys:

- ❏ cynhaliaeth anadlol (heblaw am ocsigen llif isel), gan gynnwys presenoldeb draeniau'r frest am y 72 awr gyntaf
- ❏ unrhyw gymorth cardiofasgwlaidd, er enghraifft cymorth inotropaid neu feddyginiaeth prostin
- ❏ babanod sy'n cael cymorth peiriant anadlu, hyd nes caiff y tiwb (anadlu) ei dynnu
- ❏ babanod sy'n cael cymorth anadlu 'pwysedd positif parhaus yn y llwybr anadlu' (CPAP)
- ❏ hypothermia therapiwtig

- ❏ ffototherapi dwys (dwbl neu ragor, ynghyd â'r angen am imiwnoglobwlin neu drallwysiad cyfnewid)
- ❏ draen y frest wedi'i osod (heb gymorth anadlol ychwanegol)
- ❏ cathetrau bogeiliol neu brifwythiennol wedi'u gosod
- ❏ ôl-lawdriniaeth, hyd nes na chaiff poenliniarwyr eu rhoi mwyach
- ❏ hypoglycemia ansefydlog hyd nes na chaiff decstros mewnwyrthiennol ei roi mwyach
- ❏ pan gaiff gofal ei ailgyfeirio'n weithredol i ofal cysurol neu ofal lliniarol

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol a dylid defnyddio barn glinigol hefyd wrth asesu addasrwydd ar gyfer archwiliad NIPEC newydd-enedigol.

Canlyniadau archwiliad – archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC

Dylid cofnodi'r holl ganlyniadau archwiliad a'r deilliannau yng nghofnod y plentyn a'u gwneud yn hysbys i'r meddyg teulu a'r ymwelydd iechyd.

Archwiliad lle nad amheuir annormaledd

Yn dilyn archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC, dylid hysbysu'r rhiant/rhieni am y canlyniadau. Yn achos babanod sydd â chanlyniadau sgriniad lle nad amheuir annormaledd, sydd wedi'u trosglwyddo i'r ardal neu sydd rhwng darparwyr gofal, nid oes angen cymryd camau pellach.

Dylid hysbysu'r rhiant/rhieni y bydd yr archwiliad babanod NIPEC yn cael ei gynnal mewn lleoliad gofal sylfaenol pan fo'r babi'n chwe wythnos oed (gan y gall rhai cyflyrau ddatblygu neu ddod i'r amlwg yn ddiweddarach).

Archwiliad lle amheuir annormaledd

Dylid hysbysu'r rhiant/rhieni, Meddyg Teulu ac Ymwelydd Iechyd am y canlyniadau ac unrhyw broses atgyfeirio a allai fod yn ofynnol, gan gynnwys amserlenni apwyntiadau disgwylidig.

Os na chaiff babi ei gludo i apwyntiad dilynol, dylid trefnu apwyntiadau pellach yn unol â pholisi Heb Fynychu (DNA) neu Heb ei Gludo (WNB) y byrddau iechyd.

Os yw'r babi'n rhan o lwybr triniaeth ar gyfer un elfen o'r broses archwilio, bydd angen cynnal archwiliad babanod NIPEC chwe wythnos yn dal i fod ar gyfer yr elfennau sgrinio sy'n weddill.

Yn achos canlyniad archwiliad lle amheuir annormaledd yn dilyn archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC a gynhaliwyd y tu hwnt i'r amserlen darged, dylid trefnu apwyntiad arbenigol ar unwaith.

3.2 Archwiliad Babanod chwe wythnos NIPEC

Dylid rhoi gwybodaeth am yr archwiliad babanod NIPEC i'r rhieni yn ystod y cyfnod ôl-enedigol ac unwaith eto cyn i'r archwiliad babanod NIPEC gael ei gynnig a'i gynnal. Mae'r archwiliad hwn fel arfer yn cael ei gynnal mewn lleoliad gofal sylfaenol.

Mae gwybodaeth ar gael i rieni yma:

[Pob Plentyn – Eich Beichiogrwydd a'ch Esgoriad \(pagesuite-professional.co.uk\)](https://pagesuite-professional.co.uk) ac wedi'i gynnwys yn y PCHR.

Dylid cynnal gwiriadau amserol i sicrhau bod:

- 📌 cynnig i bob babi cymwys gael ei archwilio (gan gynnwys babanod sy'n symud i'r ardal);
- 📌 asesiad yn digwydd pan fo'r babi'n chwe wythnos oed
- 📌 unrhyw atgyfeiriadau gofynnol yn cael eu gwneud o fewn yr amserlenni argymelledig
- 📌 atgyfeiriadau ôl-ddilynol yn cael eu cynnal i sicrhau ymyriadau priodol yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Os caiff babi canlyniad lle amheuir annormaledd mewn cysylltiad ag unrhyw elfen o'r archwiliad newydd-enedigol NIPEC, dylai'r ymarferydd sy'n ymgymryd â'r archwiliad babanod NIPEC wirio'r cynnydd ar hyd y llwybr gofal i sicrhau bod y camau gofynnol wedi'u gweithredu.

Canlyniadau Archwiliad – archwiliad babanod NIPEC

Dylid cofnodi'r holl ganlyniadau archwiliad a'r deilliannau ar y system TG Meddygon Teulu, ffurflen casglu data genedlaethol Rhaglen Plant Iach Cymru yn ogystal â PCHR y babi.

Nad amheuir annormaledd

Yn dilyn archwiliad babanod NIPEC, dylid hysbysu'r rhiant/rhieni am y canlyniadau. Yn achos babanod sydd â chanlyniadau archwiliad lle nad amheuir annormaledd, sydd wedi'u trosglwyddo i'r ardal neu sydd rhwng darparwyr gofal, nid oes angen cymryd camau pellach.

Dylid hysbysu'r rhiant/rhieni y bydd y babi'n dilyn Rhaglen Plant Iach Cymru [Trosolwg o Raglen Plant Iach Cymru \(llyw.cymru\)](#)

Amheuir annormaledd

Dylid hysbysu'r rhiant/rhieni am y canlyniadau ac unrhyw broses atgyfeirio a allai fod yn ofynnol, gan gynnwys amserlenni apwyntiadau disgwylidig.

Yn achos canlyniad lle amheuir annormaledd yn dilyn archwiliad babanod NIPEC a gynhaliwyd y tu hwnt i'r amserlen darged, dylid trefnu apwyntiad arbenigol ar unwaith.

4. Cadw cofnodion ac archwilio

Dylai ymarferwyr gael cydsyniad llafar gan rieni ar gyfer sgrinio a dylid cofnodi canlyniad y sgrinio ac unrhyw atgyfeiriadau'n dilyn canlyniadau(au) sgriniad positif. Dylai'r wybodaeth uchod gael ei chofnodi yn:

- ❏ nodiadau clinigol y babi a chrynodeb rhyddhau os yw'n berthnasol (archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC)
- ❏ System TG Meddygon Teulu (archwiliad babanod NIPEC)
- ❏ y PCHR (archwiliad babanod NIPEC)
- ❏ Ffurflen casglu data genedlaethol Rhaglen Plant Iach Cymru (archwiliad babanod NIPEC)

Dylai fod:

- ❏ trefniadau lleol i sicrhau bod canlyniadau'r archwiliad newydd-enedigol yn cael eu gwneud yn hysbys i gydweithwyr gofal sylfaenol a chymunedol (meddyg teulu ac ymwelydd iechyd)
- ❏ trefniadau lleol i sicrhau bod pob babi sydd â chanlyniadau lle amheuir annormaledd yn cael eu cyfeirio a'u hymdrin â hwy'n unol â safonau NIPEC o fewn y canllawiau;
- ❏ adborth ar sail presenoldeb mewn apwyntiad neu adolygiad arbenigol yn dilyn atgyfeiriadau sgriniad positif er mwyn galluogi'r broses o gofnodi deilliannau;
- ❏ proses leol i olrhain yr holl achosion o beidio â mynychu apwyntiadau yn dilyn atgyfeiriadau sgriniad positif;
- ❏ proses i gofnodi'r holl ganlyniadau sgrinio a'r deilliannau.

Mae pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru wedi ymrwymo i athroniaeth archwilio clinigol. Dylai safonau NIPEC o fewn y canllawiau, fod yn destun archwilio parhaus, gydag adolygiad amlbroffesiynol o ganlyniadau pob archwiliad.

5. Babanod sy'n symud i'r ardal neu'n symud ymaith

5.1 Babanod sy'n symud i'r ardal

Cyfrifoldeb y darparwr gofal presennol yw babanod sy'n symud i'r ardal (sy'n symud i'r wlad neu ardal y bwrdd iechyd) ac nad ydynt wedi cael archwiliad NIPEC.

5.2 Trosglwyddo babi heb archwiliad i ofal darparwr arall

Os caiff babi ei drosglwyddo i ofal darparwr (gofal) arall cyn i'r archwiliad NIPEC newydd-enedigol gael ei gynnal yn gyflawn, dylai'r darparwr gofal sy'n trosglwyddo drosi'r cyfrifoldeb i'r darparwr gofal sy'n derbyn yn ffurfiol a datgan hyn ar lafar.

Mae'r cyfrifoldeb am archwilio babanod cymwys yn parhau yn nwylo'r uned eni hyd nes bod y cyfrifoldeb yn cael ei drosi i ofal darparwr arall a'i dderbyn yn ffurfiol, boed ym maes gofal aciwt neu ofal sylfaenol.

Wedi'r trosglwyddiad, dylai'r darparwr gofal sy'n derbyn y babi gynnal yr archwiliad NIPEC. Gall y darparwr hwn fod yn wasanaeth mamolaeth, newydd-enedigol neu wasanaeth pediatreg. Dylid cofnodi canlyniadau sgrinio ar gyfer y babanod hyn yng nghofnod y plentyn a'u gwneud yn hysbys i gydweithwyr gofal sylfaenol a chymunedol (meddyg teulu ac ymwelydd iechyd).

5.3 Babanod â chanlyniadau lle amheuir annormaledd a drosglwyddir o'r naill ddarparwr gofal i'r llall

Mae'r darparwr sy'n trosglwyddo yn gyfrifol am gyfathrebu â'r darparwr sy'n derbyn er mwyn sicrhau bod unrhyw elfennau sy'n weddill o'r llwybr archwilio yn cael eu cwblhau.

6. Llwybrau cyfathrebu yn dilyn profedigaethau

Dylai fod systemau lleol i gydnabod ac enwi babanod sydd wedi marw ac i hysbysu gwasanaethau sgrinio a chlinigol perthnasol eraill ar unwaith.

7. Babanod sydd wedi methu archwiliad

Mae'r canllawiau canlynol yn amlinellu'r profion archwilio priodol yn dibynnu ar oedran babanod y canfyddir eu bod wedi methu archwiliad NIPEC.

7.1 Dosbarthu archwiliadau newydd-enedigol NIPEC a fethwyd

Os na chaiff yr archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC ei gwblhau o fewn 72 awr wedi'r enedigaeth, dylid ei gynnal cyn gynted â phosibl. Dylid nodi'r rhesymau dros ohirio y tu hwnt i 72 awr oed yng nghofnod y plentyn. Mae babanod yn parhau'n gymwys i gael archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC hyd nes eu bod yn chwe wythnos oed. Dylid archwilio ac ymchwilio i'r rhesymau dros ohirio archwiliad yn lleol os yw'n briodol.

Dylai pob babi brofi pob elfen o'r archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC cyn cael ei ryddhau'n llwyr o ofal unrhyw wasanaethau cleifion mewnol mamolaeth, newydd-enedigol neu bediatrig.

Dosbarthir archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC fel 'wedi'i fethu' os na chaiff ei gynnal:

- ❏ cyn rhyddhau'r babi'n llwyr o wasanaethau cleifion mewnol mamolaeth, newydd-enedigol neu bediatrig (heb ddarpariaeth i'w gynnal mewn lleoliad cymunedol)
- ❏ o fewn chwe wythnos i'r enedigaeth yn achos babanod heb eu harchwilio sy'n parhau i fod mewn gofal mamolaeth neu newydd-anedig i gleifion mewnol
- ❏ o fewn chwe wythnos i'r enedigaeth yn achos babanod heb eu harchwilio sydd wedi symud i (mewn i) ardal

Pan yn chwe wythnos oed, mae babanod yn dod yn gymwys ar gyfer yr archwiliad babanod NIPEC.

7.2 Babanod sydd wedi methu archwiliad NIPEC

Hyd at ac yn cynnwys tri mis oed

Dylai archwiliadau babanod newydd-anedig NIPEC, nad ydynt yn cael eu cynnal o fewn 72 awr wedi'r enedigaeth, gael eu cynnal gan y darparwr gofal presennol cyn gynted â phosibl wedi'r cyfwng amser hwn (Gweler yr adran archwiliadau NIPEC uchod am resymau dros ohirio archwiliad).

Mae babanod yn parhau'n gymwys i gael archwiliad babanod newydd-anedig NIPEC hyd nes eu bod yn chwe wythnos oed, ond dylid cwblhau'r archwiliad mor agos at y targed 72 awr â phosibl. Mae hyn yn cynnwys babanod heb eu harchwilio sy'n 'symud i mewn' i ardal neu rhwng darparwyr gofal.

Dylai babanod cymwys sy'n symud i'r ardal, sydd heb gael eu harchwilio, gael cynnig archwiliad gan y darparwr gwasanaeth cyfrifol. Gall hyn gynnwys gwasanaethau mamolaeth, newydd-enedigol neu bediatrig neu wasanaeth gofal sylfaenol yn dibynnu ar oedran a chyflwr y babi.

Os caiff archwiliad newydd-enedigol NIPEC ei gynnal ar gyrraedd chwe wythnos oed neu'n ddiweddarach wedi hynny, nid oes rheidrwydd i gynnal yr archwiliad babanod NIPEC.

Dros dri mis oed

Os yw'r archwiliad babanod NIPEC yn hwyr i'w gynnal (ar ôl chwe wythnos oed), dylid ei gynnal cyn gynted â phosibl.

Nid yw'r archwiliad ar gyfer cluniau ansefydlog, sy'n defnyddio'r symudiadau Barlow ac Ortolani, bellach yn ddibynadwy ar gyrraedd yr oedran hwn. Dylid asesu unrhyw anghymesuredd hyd y goes neu estyniad cyfyngedig y glun. Dylid hefyd arsylwi ar gerddeddiad y plentyn, os yw'n gallu cerdded.

Yn unol â chynghor y PCHR, dylid cyngori'r rhiant/rhieni i gysylltu â'u meddyg teulu neu ymwelydd iechyd os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch lles eu plentyn.

7.3 Cynnal archwiliad NIPEC a fethwyd

Rhaid i'r archwiliad neu'r arsylwad perthnasol gael ei gynnal gan ymarferydd NIPEC cymwys.

8. Archwiliad o'r llygaid

aagic.gig.cymru/files/48482-nipec-eyes-web-pdf

9. Archwiliad o'r galon

aagic.gig.cymru/files/48482-nipec-heart-web-pdf

10. Archwiliad o'r cluniau

aagic.gig.cymru/files/48482-nipec-hips-web-pdf

11. Archwiliad o'r ceilliau

aagic.gig.cymru/files/48482-nipec-testes-web-pdf

12. Safonau archwiliadau sgrinio

aagic.gig.cymru/files/48482-nipec-standards-web-pdf

Dylid rheoli unrhyw annormaleddau neu bryderon a godwyd ynghylch rhannau o archwiliad NIPEC (y tu allan i 4 maes allweddol yr archwiliad) yn unol â'r canllawiau sydd ar waith ar hyn o bryd o fewn Byrddau Iechyd / ysbytai unigol.

13. Hyfforddiant a chynnal cymhwysedd

Mae gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gyfrifoldeb personol a phroffesiynol i gynnal eu cymhwysedd clinigol. Mae cyfrifoldeb sefydliadol yn bodoli hefyd i sicrhau gweithlu diogel a chymwys.

Rhaid i'r unigolion sy'n cynnal archwiliadau NIPEC weithio yn ôl fframwaith o atebolrwydd proffesiynol a chod ymddygiad. Mae pob ymarferydd yn gyfrifol am gynnal ei gymhwysedd ei hun i gynnal yr archwiliadau i'r safon uchaf ac i nodi bylchau yn ei wybodaeth ac unrhyw anghenion hyfforddi.

Er mwyn darparu dyletswydd gofal, dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ddylai gynnal yr archwiliadau NIPEC.

13.1 Archwiliad newydd-enedigol NIPEC.

Rhaid i'r archwiliad gael ei gynnal gan ymarferydd hyfforddedig sy'n gymwys

i ymgymryd â phob elfen o'r archwiliad sgrinio newydd-enedigol ac sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol a'r asesiad adolygiad gan gymheiriaid Cymru Gyfan. (aagic.gig.cymru/ein-gwaith/archwiliad-corfforol-y-newydd-anedig-ar-babanod-cymru-nipec). Gall y sawl fod yn fydwraig, nyrs neu'n ymwelydd iechyd sydd wedi llwyddo i gwblhau rhaglen 'archwilio'r newydd-anedig' sydd wedi'i hachredu gan brifysgol, neu'n feddyg sydd wedi cwblhau CEx ar sail NIPEC.

Rhaid i unrhyw fydwraig newydd gymhwyso, sydd wedi ymgymryd â'r modiwl fel rhan o'i hyfforddiant bydwreigiaeth cyn-gofrestru, fod wedi cwblhau cydrannau damcaniaethol a chlinigol y modiwl cyn y gellir ei hystyried yn gymwys i ymgymryd â'r archwiliad.

13.2 Archwiliad Babanod (6 wythnos) NIPEC

Meddygon

Gall meddygon ymgymryd â phob elfen o'r archwiliad NIPEC 6 wythnos. Fodd bynnag, nid yw pob meddyg teulu dan hyfforddiant yn ymgymryd â hyfforddiant pediatrig ffurfiol, felly mae'n bwysig bod NIPEC yn cael ei gwmpasu yn eu hymlyniad Ymarfer Cyffredinol (blwyddyn ST3). Mae angen i ymarferwyr gymryd cyfrifoldeb dros eu cymhwysedd a'u datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Dylid caffael tystiolaeth o gymhwysedd drwy gyfrwng y broses arfarnu meddygon teulu o fewn y cylch ailddilysu neu drwy ddefnyddio'r fframwaith dysgu blynyddol (aagic.gig.cymru/files/nipec-fframwaith-dysgu-blynyddol).

Awgrymir i unrhyw feddyg teulu nad yw wedi ymgymryd â'r archwiliad 6 wythnos ers peth amser, neu y mae'n weithgaredd newydd iddo, adnewyddu ei wybodaeth yn gyntaf trwy ymroi i'r modiwl e-ddysgu NIPEC. (aagic.gig.cymru/ein-gwaith/archwiliad-corfforol-y-newydd-anedig-ar-babanod-cymru-nipec). Yn ogystal, bydd gweminarau chwarterol yn cael eu darparu, gallwch ddod o hyd i fanylion ar wefan AaGIC. (aagic.gig.cymru/ein-gwaith/archwiliad-corfforol-y-newydd-anedig-ar-babanod-cymru-nipec).

Os yw'r meddyg teulu neu'r practis yn teimlo bod angen, efallai y gellid ystyried i'r meddyg teulu weithio gyda chydweithiwr sy'n hyderus ac yn gymwys i ymgymryd ag archwiliadau NIPEC yn y Practis i gynnig rhywfaint o fentoriaeth neu ymarfer arsylwedig.

Cymdeithion meddygol

Bydd y gallu i ymgymryd ag archwiliadau sgrinio babanod neu fabanod newydd-anedig NIPEC yn dibynnu ar yr hyfforddiant a'r cymhwyster a gyflawnwyd. Dylai Cymdeithion Meddygon gwblhau rhywbeth tebyg i Ddigidwyddiad Dysgu dan Oruchwyliaeth a dangos cymhwysedd trwy'r Asesiad Adolygiad gan Gymheiriaid (aagic.gig.cymru/files/nipec-fframwaith-adolygiad-gan-gymheiriaid). Gall hyn newid (to be finalised)

Ymwelwyr iechyd neu nyrsys

Gall ymwelwyr iechyd neu nyrsys â chymhwysedd addas gynnal yr archwiliad hefyd. Er mwyn cael eich ystyried yn gymwys, disgwylir i ymwelwyr iechyd neu nyrsys fod wedi:

-  cwblhau cwrs 'archwilio'r newydd-anedig', wedi'i achredu gan brifysgol, yn llwyddiannus—gan y byddai elfennau ohono hefyd yn berthnasol i'r archwiliadau babanod;
-  ymgymryd ag asesiad adolygiad gan gymheiriaid Cymru Gyfan.

Ar hyn o bryd nid oes cwrs sy'n canolbwyntio'n benodol ar hyfforddiant ar gyfer yr archwiliad babanod 6 wythnos NIPEC. Mae'r canllawiau cenedlaethol presennol yn datgan y dylai ymwelwyr iechyd neu nyrsys ymgymryd â hyfforddiant 'archwilio'r

newydd-anedig', gan fod rhai elfennau o'r cwrs yn drosglwyddadwy ac yn berthnasol i gynnal yr archwiliad sgrinio babanod. Dylid caffael tystiolaeth o gymhwysedd a DPP trwy gwblhau'r fframwaith dysgu blynyddol (heiw.nhs.wales/files/nippec-annual-learning-framework-pdf) ac asesiad adolygiad gan gymheiriaid (aagic.gig.cymru/files/nippec-fframwaith-adolygiad-gan-gymheiriaid).

13.3 Cynnal cymhwysedd

Mae pob ymarferydd yn gyfrifol am gynnal ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn ogystal â'i gymhwysedd ei hun i gynnal yr archwiliad i'r safon uchaf, gan nodi a datrys bylchau o ran gwybodaeth, anghenion hyfforddi ac addysg barhaus (Hall ac Elliman 2006; NMC 2018).

Dylid cwblhau'r asesiad adolygiad gan gymheiriaid Cymru Gyfan yn achos unrhyw un y mae NIPEC yn weithgarwch newydd iddo neu os yn ymuno o'r newydd â'r bwrdd iechyd. Ni ddylid canolbwyntio ar leiafswm o archwiliadau i'w cynnal ond yn hytrach ar ansawdd yr archwiliadau sgrinio a gynhelir*. Fodd bynnag, os nad yw ymarferydd wedi cynnal archwiliad ers peth amser, argymhellir iddo ailgyflawni'r asesiad adolygiad gan gymheiriaid a'r dysgu ar-lein i ddiweddarau ei wybodaeth a'i sgiliau.

Dylid darparu diweddariad blynyddol lleol/cenedlaethol ar lwybrau sgrinio NIPEC a phrosesau atgyfeirio lleol i bawb sy'n ymgymryd ag archwiliad NIPEC (gan gynnwys bydwagedd, nyrsys, meddygon ac ymarferwyr NIPEC eraill). Gall hyn hefyd gynnwys asesiad ymarferol a damcaniaethol. Gweler manylion gweminarau cenedlaethol ar wefan AaGIC (aagic.gig.cymru/ein-gwaith/archwiliad-corrfforol-y-newydd-anedig-ar-babanod-cymru-nippec).

Argymhellir cwblhau modiwl e-ddysgu NIPEC (aagic.gig.cymru/ein-gwaith/archwiliad-corrfforol-y-newydd-anedig-ar-babanod-cymru-nippec) yn flynyddol.

Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar y gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran am eu cyfraniad at gynnwys y llawlyfr hwn, yn arbennig Jessica Case- Stevens (Bydwraig Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Darlithydd Prifysgol Caerdydd) a Dr Rachel Hayward (Neonatolegydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro).

Cyfeiriadau / dogfennau ffynhonnell

- Hall DMB, Elliman D (2006). Health for all children. 3ydd Argraffiad. Rhydychen: Oxford University Press.
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC 2018) The Code: Professional standards of practice and behaviour for nurses, midwives, and nursing associates. Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol (NSC 2016) Llawlyfr Rhaglen Sgrinio Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod a Babanod Newydd-anedig 2016/17. Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol.
- NHS Direct Wales (2018) Archwiliad Corfforol Newydd-enedigol Ar gael yma: www.nhsdirect.wales.nhs.uk
- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (2021) Gofal Ôl-enedigol: Cyhoeddwyd: 20 Ebrill 2021 Ar gael yma: www.nice.org.uk/guidance/ng194
- Iechyd Cyhoeddus Lloegr (Diweddarwyd 28 Ebrill 2021) Llawlyfr rhaglen sgrinio archwiliadau corfforol ar gyfer babanod a babanod newydd-anedig. Ar gael yma: www.gov.uk/government/publications/newborn-and-infant-physical-examination-programme-handbook